

Patrôl Pobl

Rhondda Cynon Taf Mwy Diogel Cylchlythyr Awst 2018

Croeso...

Croeso i ail-lansiad cylchlythyr diogelwch cymunedol am ddim a oedd arfer cael ei alw'n Pawennau ar Batrôl. Mae'r cylchlythyr yma i unrhyw un sydd â diddordeb mewn digwyddiadau cyfredol sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a materion diogelwch sy'n effeithio ar ein cymunedau.

Mae Carfan Cymunedau Diogel Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i'ch gwneud yn fwy effro i'r materion yma a sut mae modd i chi adrodd amdany'n nhw.

Gyda'n gilydd, rydyn ni eisoes yn helpu i wneud gwahaniaeth trwy roi gwybod i asiantaethau ac unigolion am y materion a'r digwyddiadau rydych chi'n adrodd amdany'n nhw.

Cynnwys

Materion sy'n effeithio ar gefn gwlad	2
Ardaloedd di-alcohol yn RhCT	4
Parchwch y Dŵr	6
Sut gallwch chi helpu	8
Atal Trosedd yn yr Haf	9
Crime Stoppers DU	12





Materion sy'n effeithio ar gefn gwlad


Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT), Heddlu De Cymru (HDC) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyd wedi nodi'n ddiweddar bod cynnydd mewn gweithgarwch anghyfreithlon gan gerbydau oddi ar y ffordd yn ein mannau agored, ein strydoedd, ein parciau a'n lonydd.

Mae llawer o drigolion yn adrodd am nifer fawr o gerbydau oddi ar y ffordd, fel Sgrialwyr / Beiciau 'Pit', Beiciau Cwad a Cherbydau 4x4.

Rydyn ni'n annog yn gryf i bob person sy'n teithio yn y mathau yma o gerbydau wneud hynny mewn cyfleuster neu ganolfan gymeradwy ar gyfer beicio oddi ar y ffordd, lle mae'r holl hyfforddiant, cyngor, cyfarwyddyd, diogelwch a chymorth brys sydd eu hangen ar gael yn rhwydd.

Mae nifer o drigolion yn pryderu bod cerbydau oddi ar y ffordd wedi dod yn agos iawn at eu bwrw nhw. Y peth olaf rydyn ni am ei weld yw rhywun yn cael ei frifo tra ei fod yn cerdded neu'n marchogaeth.

Mae gweithrediadau ar y cyd wedi bod yn parhau rhwng Heddlu De Cymru a'r cyngor yn ardal Hirwaun. Mae'r gweithrediadau yma wedi canolbwyntio ar feiciau modur yn teithio'n anghyfreithlon ar y briffordd a defnyddio'r Hawliau Tramwy yn ardal y Tram Way. Mae'r gweithrediad yma wedi arwain hyd yn hyn at drwsio rhai o'r rhwystrau yn erbyn cerbydau oddi ar y ffordd a oedd wedi'u difrodi a chynllun ar gyfer symud rhwystrau eraill sy'n bodoli eisoes i rywle arall.





Bydd gweithrediadau ar y cyd yn parhau nes i'r broblem gael ei datrys.

Lôn Werfa, Abernant Aberdâr

Mae problemau yn y gymuned leol gyda beiciau anghyfreithlon oddi ar y ffordd yn defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau cyhoeddus yn yr ardal. Mae'r Awdurdod Lleol wedi gosod rhwystrau a phileri i geisio datrys y broblem ar hyd y llwybrau yma.

Rheilffordd Dâr Aman, Cwmaman

Mae'r Awdurdod Lleol yn delio yn rheolaidd â sbwriel a thipio anghyfreithlon yn enwedig ar ben y llinell yng Nghwmaman. Ym mis Mai 2018 cafodd achlysur i gasglu a chlirio sbwriel ei gynnal gyda'r Cynghorydd Tina Williams ar y cyd â Chadwch Gymru'n Daclus, gweithwyr glanhau'r strydoedd a cheidwaid cefn gwlad. Cafodd llwyth lori o sbwriel ei gymryd o adran y Rheilffordd rhwng Cwmaman a Theras y Coetir. Hefyd, cafodd giat cae a oedd wedi'i fandaleiddio yn agos at Ysgol Gyfun Blaen-gwawr ei ailosod gyda chost i Adran Cefn Gwlad y Cyngor.

Pwll Sioni, Pontypridd

Roedd ceidwaid cefn gwlad wedi cwrdd â thrigolion lleol Y Graig, Pontypridd. Cafodd hyn ei gydlynu gan y Cynghorydd Jane Brencher a rhoddodd sylw i fynd i'r afael â sbwriel a rhywogaethau ymledol yn yr ardal. Y nod yw ffurfio grŵp cymunedol a fydd yn warchodwyr yn ardal Pwll Sioni gyda'r bwriad o leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal.

Coed Craig yr Hesg / Coed y Lan Pontypridd

Mae trigolion wedi adrodd am ymddygiadau gwrthgymdeithasol amrywiol, gan gynnwys sbwriel, tanau a beiciau oddi ar y ffordd. Mae ceidwaid cefn gwlad wedi gwneud gwaith codi ffens a thrwsio arwyddion.

Cwm-parc, Rhondda


Mae Heddlu De Cymru yn parhau i batrolio'r ardal yma o ganlyniad i gwynion am feiciau modur oddi ar y ffordd yn creu niwsans sŵn ac yn niweidio'r amgylchedd. Mae hyn wedi arwain at ddal y beicwyr a rhoi hysbysiadau adran 59 o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd iddyn nhw.



Ardaloedd di-alcohol yn RhCT

O 1 Medi bydd Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn grym yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr i geisio cynyddu ein mwynhad pan fyddwn ni'n mynd i'r ardaloedd yma. Bydd y Gorchymyn yn cael ei orfodi mewn parthau gwahardd fel sydd ar y mapiau isod.

Aberdâr






Does neb eisiau stopio pobl rhag cael hwyl ac yfed alcohol yn gyfrifol. Serch hynny, os yw'n dod i'r amlwg eich bod wedi yfed gormod o alcohol neu ddefnyddio sylweddau meddwol mae modd i chi gael dirwy o £100. Hefyd, os yw'n dod i'r amlwg eich bod yn yfed alcohol y tu hwnt i ffiniau'r sefydliad lle'r ydych wedi prynu'r alcohol mae modd i chi gael dirwy.

Bydd swyddogion y Cyngor a'r Heddlu yn gorfodi'r Gorchymyn.

Pontypridd





Ymgyrch Parchwch y Dŵr

Gyda'r tywydd braf yn ystod misoedd yr haf, mae temptasiwn i rai i fynd i nofio mewn afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yn ardal Rhondda Cynon Taf. O ganlyniad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn falch o gefnogi Ymgyrch Parchwch y Dŵr a gafodd ei lansio gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI). Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub wedi cyhoeddi bod saith o bobl wedi dweud bod 'arnofio' wedi helpu i achub eu bywyd yn 2017, ar ôl i'r elusen hyrwyddo hyn fel sgîl goroesi allweddol yr haf diwethaf.



Wrth i'r ymgyrch Parchwch y Dŵr gychwyn ar ei phumed flwyddyn, mae'r elusen yn annog unrhyw un sy'n mynd i drafferth mewn dŵr oer i aros yn llonydd ac 'arnofio'.

Pa bynnag weithgaredd rydych chi'n ei gwneud, a beth bynnag yw'ch gallu, mae modd i'r dŵr bob amser eich twyllo chi. Mae'n hawdd peidio â sylweddoli ei bŵer.

Cadwch yn ddiogel trwy nodi'r peryglon. Efallai byddwch chi'n nofio yn dda mewn pwll nofio dan do, ond dydy hynny ddim yn golygu byddwch chi'n gallu nofio yn nŵr oer y moroedd, afonydd, chwareli neu gronfeydd dŵr.

Peidiwch ag anwybyddu cyngor diogelwch, baneri a hysbysiadau arbennig sy'n eich rhybuddio am unrhyw beryglon, sicrhewch eich bod yn gwybod beth mae pob arwydd yn ei olygu a beth maen nhw'n ei ddweud wrthyh chi.

Peidiwch byth â nofio ar eich pen eich hun fel bod modd i rywun mynd i ofyn am help os ydych chi'n mynd i berygl. Dylai plant fynd yng nghwmni oedolyn bob amser.

Ddylech chi byth fynd i'r dŵr ar ôl yfed alcohol. Mae alcohol yn ffactor sy'n cyfrannu at nifer o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr gan ei fod yn amharu'n ddifrifol ar eich barn, eich adweithiau a'ch gallu i nofio.

Yn aml dydy pobl ddim yn sylweddoli beth yw effaith alcohol ar y corff ar ôl mynd i mewn i ddŵr oer. Mae modd i sioc dŵr oer arwain at fodd.

Cymerwch funud. Mae effeithiau cychwynnol dŵr oer yn dod i ben mewn llai na munud felly peidiwch â cheisio nofio ar unwaith.

Ymlaciwch ac arnofio ar eich cefn i ddal eich anadl. Ceisiwch afael yn rhywbeth fydd yn eich helpu i arnofio.

Arhoswch yn llonydd yna galwch am help neu nofiwch i rywle diogel os oes modd.

Mae dŵr sydd â thymheredd o dan 15°C yn cael ei ddiffinio fel dŵr oer ac mae'n effeithio'n ddifrifol ar anadlu, yn ogystal â symud.

Oeddech chi'n gwybod mai dim ond 12°C yw tymheredd y môr yn y DU ar gyfartaledd? Mae'r afonydd yn oerach na hynny, hyd yn oed yn yr haf. Mae'r risg o sioc dŵr oer yn sylweddol y rhan fwyaf o'r flwyddyn.





Sut gallwch chi **HELPU**

Os ydych chi'n dyst i achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, y cyngor yw i chi beidio â mynd i'r afael â'r troseddwy eich hun a chadw eich hun yn ddiogel bob amser. Ceisiwch wneud nodyn meddyliol o'u manylion a'u cerbyd - bydd yn helpu'r Heddlu gyda'u hymholiadau.

Ffoniwch yr **Heddlu** ar y rhif ar gyfer achosion sy ddim yn argyfwng, **101** i adrodd am bob digwyddiad. Os ydych chi'n credu bod y digwyddiad yn **Argyfwng**, dylech alw **999**

Rhifau argyfwng a rhifau ar gyfer achosion sy ddim yn argyfwng

Argyfwng 999

Achosion sy ddim yn Argyfwng 101

Y Gwasanaeth Tân - Dim Mewn Argyfwng 01443 232000

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 01443 425001

Ffurflenni adrodd ar-lein Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

www.rctcbc.gov.uk/RhoiAdroddiad




CYNGOR ATAL TROSEDDAU TYMHOROL YN YR HAF

Peidiwch â gadael i ladron gael mynediad hawdd i'ch cartref

Yn ystod y tywydd braf, mae pobl yn fwy tebygol o adael eu drysau a'u ffenestri ar agor i awyru eu tai. Mae achosion o ladron yn dwyn wrth gerdded i mewn i dai trwy ddrws agored yn cynyddu yn ystod misoedd yr haf, felly byddwch yn effro i hyn. Os dydych chi ddim yn gallu gweld y drws neu'r ffenestr yna dylech chi eu cau nhw a'u cloi. Os ydych chi'n mwynhau yn eich gardd, cofiwch gau a chloi pob ffenestr ym mlaen eich tŷ.

Mwynhewch eich gwyliau haf ond gwnewch yn siŵr bod eich cartref yn edrych fel bod rhywun yn byw ynddo tra byddwch chi i ffwrdd

1. Defnyddiwch switsys wedi'u hamseru ar oleuadau er mwyn i'ch cartref edrych fel bod rhywun yn byw ynddo gyda'r nos.
2. Os oes modd, gadewch gar tu allan i'ch tŷ neu gofynnwch i gymydog barcio ei gar yno tra'ch bod chi i ffwrdd.
3. Gofynnwch i gymydog edrych ar ôl eich cartref tra'ch bod chi i ffwrdd a symud unrhyw bost allan o'r golwg.
4. Canslwch unrhyw gyflenwadau rheolaidd fel llaeth a phapurau newydd.
5. Os oes gyda chi lawnt, torrwch hi cyn i chi fynd i ffwrdd a thociwch unrhyw lwyni mae modd i ladron guddio y tu ôl iddyn nhw.
6. Clowch unrhyw eitemau gwerthfawr fel beiciau i ffwrdd - efallai byddan nhw'n fwy diogel yn eich cartref nag mewn tŷ allan neu sied.





Cadwch eich beic yn ddiogel




Ysgrifennwch eich cod post a rhif eich tŷ ar ffrâm eich beic gan ddefnyddio pen Uwch Fioled neu label sy'n ddiogel. Cadwch fanylion rhif y ffrâm, y gwneuthurwr, y model a'r math o feic a chymerwch lun hefyd. Cofrestrwch eich beic ar www.immobilise.com - cronfa ddata eiddo ar-lein am ddim mae'r

Heddlu'n ei defnyddio i wirio eiddo sy wedi'i ddwyn. Peidiwch byth â gadael eich beic heb ei gloi - hyd yn oed os ydych chi ond yn pigo mewn i'r siop bapur newydd am ychydig funudau. Y math gorau o glo yw clo dur siâp D o ansawdd uchel. Clowch eich beic bob amser wrth rywbeth solet fel polyn lamp neu reiliau, yn ddelfrydol mewn ardal gyhoeddus. Os oes gyda chi olwyn rhyddhau cyflym, tynnwch eich olwyn flaen a'i chloi i'r ffrâm a'r olwyn gefn. Os oes gyda chi bwmp neu oleuadau mae modd eu tynnu, ewch â nhw gyda chi pan fyddwch chi'n gadael eich beic.

Sicrhewch fod gyda chi yswiriant digonol ar gyfer eich beic.

Sicrhewch fod eich car yn ddiogel



1. Peidiwch â gadael pethau gwerthfawr yn eich car - hyd yn oed os ydych chi'n gwybod fod y bag ar y sedd flaen yn wag, efallai bydd lleidr yn dal i roi cynnig ar geisio ei ddwyn.
2. Tynnwch eich Sat Nav a'i ddaliwr o'ch car; peidiwch â'i adael yn y blwch maneg gan mai dyma'r lle cyntaf y bydd lleidr yn chwilio amdano a gwnewch yn siŵr eich bod yn sychu unrhyw farciau mae'r daliwr wedi'u gwneud.
3. Cofiwch gau eich ffenestri a'ch to haul pan fyddwch chi'n gadael eich car.
4. Defnyddiwch glo ar yr olwyn lywio a chlamp ar y gêr.
5. Defnyddiwch eich llonyddwr a'ch larwm os oes un gyda chi.



Mae lladron yn hoffi gweithio'n gudd, felly tociwch wrychoedd a llwyni yr haf yma

1. Tociwch wrychoedd a llwyni yn eich gardd flaen fel eu bod yn is nag uchder silff y ffenestr i atal lladron rhag cuddio y tu ôl iddyn nhw.
2. Defnyddiwch raeau ar lwybrau i helpu i atal lleidr rhag dod i'ch tŷ.
3. Mae plannu planhigion mewn modd penodol helpu hefyd - defnyddiwch blanhigion a llwyni pigog yn agos at ardaloedd hawdd eu cyrraedd megis ffenestri, ffensys, waliau ffin a phibau glaw.

Peidiwch â gwneud gwaith y lladron yn hawdd ... cadwch offer garddio wedi'u cloi i ffwrdd

1. Cadwch eich sied yn ddiogel ac wedi'i chloi.
2. Defnyddiwch foltau coets neu sgriwiau sy ddim yn dychwelyd er mwyn sicrhau bod y drws wedi'i osod yn soun.
3. Rhwch offer garddio a dodrefn yr ardd i gadw bob amser pan fyddwch chi wedi gorffen eu defnyddio.
4. Cadwch ffensys eich gardd mewn cyflwr da ac ystyriwch gael trelis ar y brig i atal unrhyw leidr rhag dringo drostyn nhw.

Gwnewch eich pethau gwerthfawr yn llai deniadol i'w dwyn

1. Engrafwch neu paentiwch eich cod post a rhif eich ty (neu enw) ar ddodrefn yr ardd a'ch offer DIY.
2. Ar gyfer eitemau metel trymach fel peiriannau lladd gwair, defnyddiwch forthwyl a set o dyllwyr.
3. Cymerwch luniau o blanhigion ac addurniadau gardd gwerthfawr i'ch helpu i'w hadnabod os oes lladrad.
4. Gwiriwch fod eich yswiriant cartref yn cynnwys dwyn o'ch gardd neu'ch tai allan.





A fydddech chi'n fwy cyfforddus
yn ddienw?

Oeddech chi'n gwybod bod yna rhif ar gyfer adrodd am droseddau yn ddienw?

Sefydliad elusen yw **CRIMESTOPPERS** sy'n annog pobl i adrodd yn ddienw os ydyn nhw am wneud hynny. Y rhif yw

0800 555 111

Os dydych ddim am danysgrifio i'r Cylchlythyr Diogelwch Cymunedol
yma bellach, e-bostiwch eich manylion i
cymunedaudiogel@rhondda-cynon-taf.gov.uk